YNYS ENLLI BARDSEY ISLAND

Y Cafn

Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyf. www.enlli.org Gaeaf 2007

Priodas arbennig yng Nghapel Enlli

Ffig 1: Steve ac Emma ar ddiwrnod eu priodas gydag Esgob Barking.

Ar ddydd Iau, 18 Hydref 2007, priodwyd Steve Stansfield ac Emma Bowler yng Nghapel Enlli. Eu mab, Connor, oedd y gwas priodas. Y briodas ddiwethaf ar yr ynys oedd seremoni Tim a Dot Tyne yn ôl ym 1995. Ar gyfer priodas Steve ac Emma roedd rhaid cael trwydded arbennig gan Archesgob Caergaint. Adaryddwr a'u priododd sef yr Esgob David Hawkins o Barking sy'n aelod o WMAYE (Wylfa Maes ac Adar Ynys Enlli) ac sy'n ymwelydd cyson â'r Wylfa Adar.

Cerddodd Emma i lawr yr eil ar fraich Bevan Healey. Bob Normand a ganodd glychau'r Capel. Bu Emyr yn brysur yn addurno'r Capel gyda blodau a chanhwyllau. Alicia Normand a Bevan Craddock oedd y tystion i arwyddo'r Cofrestr. Neil Healey wnaeth y stôl a ddefnyddiwyd yn nhŵr yr Abaty lle bendithwyd eu priodas. Neil hefyd oedd y dyn camera fideo am y diwrnod. Emma ac Alicia fu'n brysur yn addurno a gwnïo'r stôl. Steve Porter oedd y ffotograffydd swyddogol. Carole Shearman fu'n glanhau ac addurno'r hen Ysgol lle cynhelir y parti gyda'r nos. Ernest Evans oedd yn darparu'r cludiant swyddogol yn y bygi o'r Capel i'r hen Ysgol, a addurnwyd gan Angharad Roberts. Diolch i Dafydd Philips a ddaeth â Chadeirydd a Thrysorydd (a'r Organydd am y diwrnod) y Wylfa Adar i'r Ynys. Christine Evans ac Alicia Normand wnaeth y cacennau. Gareth Roberts a'i wraig Meriel a'u merch Angharad, ynghyd â Helen a Geraint Griffiths a ddarparodd y wledd briodasol.

Yn ystod y seremoni, Rachel a Steve Porter a gyflwynodd y darlleniadau. Darllenodd Christine un o'i cherddi a Dianne Charles a drefnodd y gerddoriaeth a'r canu. Trefnwyd y cludiant i'r briodas gan Dafydd Phillips.

Cynnwys

	Rhif y tud.
Gair gan y Cadeirydd	2
Tractor 'Hi-Tec' ar Enlli	2
Giatiau newydd, hen gynllun	2
Defaid gwreiddiol yn dychwelyd	3
Mainc newydd a gwenyn deildorrol	3
O'r Archif: Brenhinoedd Enlli	4
Ffermwyr newydd yn Nhy Pellaf	5
Newyddion o'r Wylfa Adar	5
CD newydd o ganeuon Enlli	6
Lledaenu'r gair	6

Gair gan y Cadeirydd…

Er na chafwyd tywydd heulog braf ar y tir mawr yn ystod yr haf bu'r tymor ar Enlli eleni yn brysur o ran gosod tai. Roedd y tai'n llawn tros y rhan fwyaf o fis Gorffennaf hyd at yr 2ail wythnos ym mis Medi. Derbyniwyd nifer fawr o ymholiadau eisoes ar gyfer tymor 2008. Bu gwirfoddolwyr yn cynorthwyo Emyr Roberts gyda'r glanhau wythnosol.

Derbyniwyd nifer o lythyrau yn canmol cyflwr y tai, y gerddi a'r gofal a roddwyd i'r ymwelwyr gan Emyr a'r gwasanaeth cwch effeithiol gan Colin Evans. Nodwyd bod yr Ynys yn edrych yn raenus gyda'r caeau wedi eu tacluso a'r anifeiliaid mewn cyflwr da dan ofal Gareth Roberts.

Daeth nifer o wirfoddolwyr ffyddlon i gynorthwyo gyda'r gwaith cynnal a chadw, rhai yn ystod y tymor a'r gweddill, yn ôl yr arfer, yn ystod mis Medi. Mawr yw dyled YYE i'r cyfeillion yma am ofalu am Enlli a'i gwneud yn bleserus a deniadol i fynd yno i aros. Erbyn hyn mae Emyr yn brysur yn paratoi'r tai ar gyfer tymor 2008.

Dymunaf gyfarchion y tymor i chwi ac iechyd i chwi gael dod i Enlli yn 2008.

Richard Williams, Cadeirydd Gweithredol

Ffig 2: Gwen o Ynys Môn yn brysur yn peintio

Tractor Hi-tec

Ni fu tractor 'hi-tec' ar Enlli ers 1950 a chyn hynny ym 1930. Mis Awst eleni aeth peiriant mawr disglair hi-tec drosodd i weithio yn y caeau ar gyfer darparu'r byrnau mawr, bwyd hanfodol y gaeaf i'r anifeiliaid. I'r rhai hiraethus ohonoch roedd yr hen dractor yn rhan o'r gwaith o hyd. Nid oes sôn am ei ymddeol eto.

Giatiau newydd, patrwm traddodiadol

Ffig 3: Dewi Jones, Chwilog yn gosod un or giatiau

Wrth gerdded i fyny o'r Cafn eleni fe welwch fod giatiau newydd wedi eu gosod ar sawl adwy ar hyd y llwybr. Cafodd y giatiau eu creu a'u gosod yn eu lle gan grefftwr lleol o Chwilog - Dewi Jones. Mae'r giatiau o safon uchel ac yn dilyn patrwm yr hen giatiau gwreiddiol. Mae chwe giât wedi eu gosod ac mae dwsin arall wrthi'n cael eu paratoi. Hoffai'r Ymddiriedolaeth ddiolch i Dewi am ei waith ac i Colin am eu cludo i'r ynys. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ddiolchgar iawn i AHNE Llyn am eu cymhorthdal tuag at y gwaith.

Adar prin yr hydref

Ymysg rhai o'r adar prin y cafwyd cipolwg arnynt yn ystod yr hydref mae breision yr eira, corhedyddion Richard, telorion aelfelyn, tingochion duon, telorion rhesog, corhedyddion y dwr, ehedyddion y coed a cheiliog y chynffon las ystlys-goch (cofnod cyntaf i Gymru) a ddarganfuwyd gan Ben Stammers.

Defaid yn dychwelyd

Ffig 4: Yr wyn yn cael eu cludo dros y Swnt

Wedi absenoldeb o bum mlynedd mae disgynyddion defaid gwreiddiol Enlli wedi eu dychwelyd i'r ynys. Mae'r llinach yma o frîd Cymreig wedi bodoli ar Enlli ers cyn cof. Oherwydd newid yn nhenantiaeth y fferm daeth y ddiadell wreiddiol hon oddi ar yr ynys ond bu i nifer fechan ohonynt gael eu cynnal yn Uwchmynydd gan Gareth Roberts (Cwrt).

Yn ystod yr haf hwnnw yn 2002 roedd Claire Barber yn artist preswyl ar Enlli. Fe'i hysbrydolwyd gan ymadawiad y defaid i wneud defnydd o'r cnu olaf a gasglwyd ac, ymysg pethau eraill, fe wnaeth glogyn o ffelt trwchus o'r gwlân hwn. Mae'r glogyn i'w gweld ar yr ynys ers hynny.

Gweler newid eto eleni yn nhenantiaeth y fferm ac o'r herwydd, yn ystod Gorffennaf ac Awst, daethpwyd â dros mil o ddefaid ac wyn oddi ar yr ynys. Oherwydd hyn roedd Gareth Roberts yn gallu dychwelyd tua 300 o ddefaid benyw Cymreig, disgynyddion y defaid gwreiddiol, i bori unwaith eto ar Enlli.

Mainc newydd

Mae eistedd ger y storws yn Cafn wedi bod yn draddodiad erioed i drigolion ac ymwelwyr ag Enlli. Ar un adeg bocsys dal pysgod oedd y seddau yno. Daeth pren y sedd y byddai'r mwyafrif ohonom yn ei gofio i'r lan fel broc ar Enlli tua diwedd y 1960au. Bu gynt yn rhan o gaead pren i'r howld mewn llong nwyddau. Wedi blynyddoedd o wasanaeth ger y storws roedd y fainc wedi dirywio'n raddol nes yn ddiweddar fe chwalodd yn llwyr. Yn cyfrannu at y dirywiad graddol hwn gwelwyd tystoliaeth fod y wenynen deildorrol wedi bod yn nythu yn y pren.

Y wenynen deildorrol

Ffig 5: Gwenynen deildorrol wrth ei gwaith

Mae'r wenynen deildorrol yn wenynen gynhenid ac yn beilliwr pwysig. Mae hi tua'r un maint â gwenynen fêl gyffredin er ychydig yn dywyllach gyda bandiau golau ar draws ei bol. Gwenynen unigol ydy hi, ac nid yw'n heidio. Yn hytrach mae'r wenynen fenywaidd yn gwneud yr holl waith magu ei hun. Golyga hyn greu lle i nythu gan dyllu mewn pren meddal sy'n pydru neu mewn goesyn planhigion mawr bywynnog fel rhosyn a chreu celloedd nythu. Mae'r wenynen hon yn adnabyddus am ei harferiad o dorri cylchoedd twt allan o ddail rhosid a dail planhigion eraill. Maent yn defnyddio'r dail i rannu celloedd ac i gau mynedfa eu nyth. Byddant wedi casglu paill i fwydo'r lindys yn ei gell. Mae'n bosib i oedolyn fenywaidd fyw hyd at ddau fis gan ddodwy rhyw 35 i 40 o wyau yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid ydynt yn ffiaidd a dim ond pigiad ysgafn sydd ganddi pe bai rhywun yn ei chodi.

Mae'n debyg mai dail rhosod o ardd Dynogoch ynghyd â dail planhigion eraill yng ngardd y goleudy fyddai wedi eu defnyddio yn y celloedd yn y fainc. Fodd bynnag, erbyn hyn mae mainc newydd wedi ei chodi ger y storws gan griw bach o unigolion ffyddlon ac yn ôl y traddodiad defnyddiwyd pren a gafwyd ar y traeth i'w chreu.

O'r Archif … Brenhinoedd Enlli

Ar ddiwedd y drydedd ganrif ar bymtheg, fel rhan o adloniant y teulu Niwbwrch a'u cyfeillion, cyflwynwyd hetiau i'r ynyswyr fel bod 'brenin a brenhines amlwg wedi eu henwi o blith y gweddill, trwy wisgo rhuban ychwanegol'. Aneglur iawn ydy pa mor ddifrif oedd yr arferiad hwn nes ysgrifennwyd llythyr yn 1826 yn datgan 'The poor old King of Bardsey is dead and buried on the island'. Tair wythnos yn ddiweddarach cymerodd ewythr yr Arglwydd Niwbwrch daith ar long yr Arvon o Gaernarfon draw i'r ynys am seremoni yn clodfori'r Brenin 'saluting by crown the King of Bardsey'. Mae'n debyg mai hwn oedd y seremoni coroni cyntaf. Gwnaed y goron gan Geidwad y Goleudy ar y pryd ac mae bellach i'w gweld yn Amgueddfa Forwrol Lerpwl. Mae wedi ei wneud o dun gyda 'gemau' gwydr a'i pheintio'n aur. (Gallwch ofyn am ei gweld os nad ydy hi'n cael ei harddangos - mae'n un uchelgais gen i ei gweld yn dychwelyd i'r ynys neu i Aberdaron).

Mae dipyn o hel meddyliau a thrafod ar yr ynys neu yng nghynhesrwydd y Ship yn Aberdaron, ynglyn â rôl Brenin Enlli. Un tyb ydy mai rôl asiant oedd rôl y Brenin, yn casglu rhent a chyda rôl canolig rhwng Stad Niwbwrch a'r ynyswyr. Nid yw'r llythyru o'r 19eg ganrif sydd yn yr archif yn cydweddu â hyn – roedd unrhyw un o drigolion Enlli yn gallu ys grifennu at Arglwydd Niwbwrch – ac felly y bu. Ceir llythyrau yn gofyn am ostyngiad yn eu rhent neu am waith ar long yr Arglwydd neu, fel yn achos Ann Williams, Plas Bach, yn gofyn caniatâd am gadw'r tir ar ôl colli ei gwr. Roedd ganddi ddeg o blant, i g yd yn gweithio gartref gyda'r plant hyn yn helpu ar y tir. Ar ôl y llythyru, cymerodd yr Arglwydd Niwbwrch ddiddordeb arbennig yn y teulu. Cedwir ystafelloedd yn y ty ar ei gyfer, wedi eu dodrefnu gydag eitemau wedi eu cludo'n arbennig o'i Stad yng Nglynl lifon.

Yn ôl y sôn, Trinity House ddewisiodd John Williams fel y Brenin cyntaf oherwydd iddo gael ei apwyntio i oruchwylio'r bad achub a'r cyflenwadau. Bu iddo foddi ar Ebrill 13, 1841 pan yn 41 oed wrth iddo groesi i'r tir mawr ddiwrnod ar ôl geni ei fab (roedd mab arall iddo wedi marw yn 4 oed ym 1837; roedd dwy ferch hyn ganddo). Daeth y babi hwn, a enwyd yn John Williams, yn frenin Enlli pan yr oedd yn 33 oed.

Ffig 6: Cerdyn post o John Williams II
Trwy garedigrwydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd

Cyn i John Williams olynu ei dad, Robert Williams, Hendy, bu'n frenin am drideg mlynedd er na chafodd ei enwi'n frenin heblaw yn nyddiadur y Gweinidog Calfinaidd, William T Jones yn fuan ar ôl iddo symud i'r ynys.

Cafodd John Williams II ei goroni ym 1874 mewn seremoni gydag aelodau hyn o Trinity House yn cymryd rhan mewn gwisgoedd crand a brocêd aur gyda'r llong wrth law (efallai bod Arglwydd Niwbwrch yn rhy hen i fynychu). Roedd yn sefyll ar gadair ar y poncyn bach Bryn Coroni ac yn cymryd llw wrth ddal blwch snisin seremonïol. Mae hanes amdano yn y llyfr Tomos o Enlli fel meddwyn digalon ac mae'r lluniau ohono rhwng 1894 a 1899 i'w gweld yn cefnogi hyn. Ni wnaeth

John Williams briodi. Bu'n byw gyda'i chwaer Jane Williams ac mae cyfeiriad atynt ym 1888 yn sôn am dy Brenin John a'r hen Frenhines (ei chwaer). Deuddeg mlynedd yn ddiweddarach, roedd gofyn iddo adael yr ynys ar sail ei feddwdod a Love Pritchard, Ty Pellaf a'i olynodd fel yr ynyswr hynaf.

Yn ffotogenig a chymdeithasol, daeth Love Pritchard yn adnabyddus. Un chwedl enwog amdano yw ei fod ef a rhai ynyswyr eraill eu gwrthod ar ôl iddynt gynnig ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Wedi digio, datganodd Love Pritchard fod Enlli yn diriogaeth niwtral! Yn wahanol i John Williams II a oedd yn amharod i wisgo'r goron, byddai Love Pritchard yn mwynhau gwisgo'r goron ac yn barod iawn i gael tynnu ei lun. Mae sôn iddo gerdded i lawr Stryd Fawr Pwllheli yn ei llawn ogoniant. 'An old salt with a mahogany face framed in whiskers' yw disgrifiad Mortimer Wheeler ohono ar ôl iddynt gwrdd mewn tafarn yn Aberdaron ym 1922. Ym 1925, mae sylw amdano yn y papurau lleol fel y Brenin yn arwain 'ei bobl' o'r ynys i ymgartrefu ar y tir mawr. Mae'n datgan yn un ei fod yn awyddus dod o hyd i wraig ag yntau ddim ond yn 83 oed. Bu farw John Williams II a Love Pritchard yn ddi-briod a di-blant.

Cyfieithiad o ddarn gan Christine Evans

Ffermwyr newydd yn Nhy Pellaf

Mae'n siwr eich bod wedi clywed am y teulu newydd sydd wedi symud i Ty Pellaf, er nad ydych wedi cael y cyfle i gyfarfod Steve, ei wraig Jo na'u plant Rachel (13 oed) a Ben (11 oed). Maent wedi bod yn ymweld ag Enlli ar wyliau ers i'r plant fod yn fach ond mae'r cyswllt yn gryfach na hynny. Ers tair blynedd, mae Steve wedi bod yn cadw gwenyn ar yr ynys ac fe'i welir yn aml yn ei gaiac – wedi dod i gadw golwg ar y gwenyn neu i gludo rhywbeth ar eu cyfer ar flaen y caiac ar ei daith o Aberdaron. Mae'r gwenyn wedi ffynnu ar yr ynys ac mae mêl Steve ar werth yno.

Cafodd Steve ei fagu ar fferm ddefaid yng Nghonwy ac mae wedi ymddiddori ym myd natur a'r amgylchedd erioed. Mae wedi ei hyfforddi fel Tiwtor Gweithgareddau Allanol ond mae'n arbennig o hoff o ddringo, ogofeuo a mynd yn y caiac. Yn ddiweddar, mae wedi cwblhau taith o amgylch arfordir Cymru a'r Alban yn casglu arian at bentref sy'n dioddef o newyn a syched yng ngogledd Kenya. Mae wedi bod yn dysgu'n rhan amser yng Ngholeg Dewi Sant, Llandudno ers saith mlynedd ac mae Steve a Jo wedi gweithio gyda'r ieuenctid â'r eglwys leol. Mae'n hoff iawn o seryddiaeth ac mae'n gobeithio na fydd y goleudy yn amharu gormod ar wylio'r sêr drwy ei delesgop newydd.

Ffig 7: Steve Porter gyda'i fab, Ben

Un o deulu Cymraeg o Fae Colwyn yw Jo. Daeth i wirfoddoli ar Enlli am y tro cyntaf pan yn bymtheg oed, wedi cael ei hannog gan ei athrawes fioleg, Doris Alcock. Treuliodd dair wythnos yn adeiladu'r trapiau Heligoland, gan ddychwelyd bob haf nes iddi astudio ecoleg fel BSc ym Mhrifysgol Lancaster ac yna dilyn cwrs Rheolaeth Adnoddau Gwledig. Dychwelodd i Enlli pan roedd yn gweithio i'r CCGC yn gwneud Arolwg o Lystyfiant Gwynedd. Wedi iddo briodi â Steve, bu Jo'n brysur yn cadw geifr, ieir, gardd lysiau fawr, erw o wair a blodau gwyllt, gwenyn, a magu plant, wrth gwrs. Mae'n mwynhau crefftau o bob math yn arbennig gweithio hefo gwlân, nyddu, lliwio, gwneud ffelt a gwau a basgedi helyg o bob math.

Rwan, mae Jo'n goruchwylio gwersi Ben a Rachel. Maent yn astudio trwy becyn dysgu o bell ond mae'n cael cymorth yr Awdurdod ac athrawon lleol i'r gwersi Cymraeg.

Caneuon Enlli ar CD

Yn barod cyn bo hir - CANEUON ENLLI, 16 o ganeuon sy'n gysylltiedig â'r ynys mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, gan gynnwys cân gan ein noddwr, Bryn Terfel. Ar gael o'r swyddfa, pris: £10 gyda £1 am gludiant. Bydd yr holl elw'n mynd at waith Ymddiriedolaeth Ynys Enlli.

Ewch i'r safwe **www.enlli.org** i weld pryd fydd y CD yn cael ei rhyddhau. Efallai y bydd yn barod erbyn y Nadolig!



Ffig 8: Clawr y CD fydd ar werth cyn bo hir

Newyddion o'r Wylfa Adar

Mi fydd colled mawr ymysg trigolion ac ymwelwyr Enlli wrth i David ffarwelio â'r ynys ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae David Wright wedi bod yn gweithio fel Dirpwy Warden am ddwy flynedd.

Felly, mae angen Dirpwy Warden newydd ar gyfer tymor 2008 yn yr Wylfa Adar. Contract am wyth mis yn cychwyn ym mis Mawrth 2008 sy'n cael ei gynnig. Mae'r Wylfa Adar hefyd yn awyddus i gyflogi Gweithiwr Maes i wneud cyfrifiad o'r adar drycin Manaw sydd yn nythu. Mae hon yn swydd am bum wythnos. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Steve am fwy o fanylion.

….yn parhau o dudalen 5

Mae Rachel yn mwynhau celf a chrefft, edrych ar ôl yr anifeiliaid ac mae hi'n ddarllenwraig frwd. Gwylio adar, ffotograffiaeth, astudio byd natur a helpu ar y fferm mae Ben yn ei fwynhau, yn arbennig os bydd hynnhy'n golygu mynd ar gefn y beic fferm.

Mae'r teulu, sy'n cynnwys eu cwn Esther, Daisy a Celyn, wedi symud i Ty Pellaf ers dechrau'r hydref ac maent bellach wedi ymgartrefu ac yn edrych ymlaen at y Nadolig (unwaith mae Jo wedi meistroli'r peiriant trydan) a chael gwneud anrhegion Nadolig eleni.

Lledaenwch y gair

Ffig 9: John ar stondin yr Ymddiriedolaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ffodus iawn i gael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar. Roedd erthygl gan Beca Brown yn *Golwg* yn sôn am ei gwyliau ar yr ynys, roedd eitem am yr adar drycin Manaw gyda Iolo Williams ar BBC2, eitem yn dilyn gwaith Colin Evans wrth iddo ddylunio ac adeiladu cwch newydd Enlli y *Maria Stella II* ac mae Gareth Roberts, Cwrt wedi bod yn siarad gyda Dai Jones Llanilar ar y rhaglen boblogaidd, *Ffermio*.

Er fod yr Ymddiriedolaeth yn marchnata gymaint ag sy'n bosib ar gyllid bychan iawn, un o'r pethau gorau i'w gwneud yw sôn wrth eraill am y profiad unigryw o aros ar Ynys Enlli, felly lledaenwch y gair!

Cafodd *Y Cafn* yma ei gynhyrchu gan Esther Roberts, Delyth Gordon a Haf Meredydd. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu eitem neu helpu gyda'r cyfieithu a pharatoi. Os hoffech gynnwys eitem yn y rhifyn nesaf, cysylltwch â Swyddfa'r Ymddiriedolaeth.